# PANEL HEDDLU A THROSEDDU DYFED-POWYS
# 28AIN GORFFENNAF 2017

**YN BRESENNOL: A. Lloyd-Jones (Cadeirydd);**

**Aelodau o Gyngor Sir Caerfyrddin:-**

**Y Cynghorwyr K. Howells, T.J. Jones ac E. Morgan;**

**Aelodau o Gyngor Sir Ceredigion**

**Y Cynghorwyr K. Evans ac L. Edwards;**

**Aelodau o Gyngor Sir Penfro**

**Y Cynghorwyr M. James, R. Summons ac S. Joseph;**

**Aelodau o Gyngor Sir Powys**

**Y Cynghorwyr D.O. Evans, L. George ac W. Powell;**

**Aelodau Annibynnol**

**Yr Athro I. Roffe;**
**Mrs. H.M. Thomas;**

**Yn bresennol o Swyddfa'r Comisiynydd Heddlu a Throseddu:-**

**Mr. D. Llywelyn - Y Comisiynydd Heddlu a Throseddu;**
**Mrs. C. Morgans - Pennaeth y Staff;**

**Roedd y swyddogion canlynol hefyd yn bresennol: -**

**Cyngor Sir Caerfyrddin:-**

**Mr. R. Edgecombe - Rheolwr Dros Dro y Gwasanaethau Cyfreithiol;**
**Ms. D. Williams - Rheolwr Cynorthwyol Marchnata a'r Cyfryngau;**
**Mrs. J Owen, Swyddog Gwasanaethau Democrataidd.**

**Y Siambr, Neuadd y Sir, Caerfyrddin, 11:20am – 1:20pm**

## 1. PENODI CADEIRYDD AC IS-GADEIRYDD AR GYFER 2017/2018

Cynigiwyd penodi'r Cynghorydd A. Lloyd-Jones yn Gadeirydd y Panel ac eiliwyd hynny.

**PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL fod y Cynghorydd Alun Lloyd-Jones yn cael ei benodi'n Gadeirydd y Panel.**

Gofynnodd y Cadeirydd am enwebiadau ar gyfer Is-gadeirydd. Cynigiwyd penodi'r Athro I. Roffe yn Is-gadeirydd y Panel, ac eiliwyd hynny.

**PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL benodi'r Athro I. Roffe yn Is-gadeirydd y Panel.**

## 2. YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB A MATERION PERSONOL

Ni chafwyd dim ymddiheuriadau am absenoldeb.

Estynnodd y Cadeirydd longyfarchiadau i'r Comisiynydd Heddlu a Throseddu ar enedigaeth ei fab.

Dymunai'r Cadeirydd fynegi ei werthfawrogiad i gyn-aelodau'r Panel am eu cyfraniad at waith y Panel dros y flwyddyn ddiwethaf.

## 3. DATGAN BUDDIANNAU

Ni chafwyd dim datganiadau o fuddiant personol.

## 4. COFNODION

**PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL lofnodi cofnodion cyfarfod Panel Heddlu a Throseddu Dyfed-Powys a gynhaliwyd ar 27 Mawrth 2017 yn gofnod cywir.**

## 5. MATERION SY'N CODI O'R COFNODION

### 5.1 Cofnod 7 – Eitem ar yr Agenda, Eitem yn ymwneud â'r Cyfryngau

Dywedwyd bod angen proffil uwch ar Banel Heddlu a Throseddu Dyfed-Powys gan fod Aelodau'r Panel yn cael ymholiadau gan y cyhoedd ynglŷn â'r hyn oedd rôl y Panel. Dywedodd y Comisiynydd Heddlu a Throseddu ei fod yn bwriadu gweithio'n agos gyda'r Panel i ymwneud â nhw a'u cynnwys yn rhai o'r gweithgareddau y mae'n eu cynnal, a fyddai yn ei dro yn codi ymwybyddiaeth y cyhoedd o'r Panel.

### 5.2 Cofnod 9 – Eitem ar yr Agenda, Grant y Swyddfa Gartref ar gyfer Gweithgareddau'r Panel

Mewn ymateb i ymholiad, cadarnhaodd Rheolwr Dros Dro y Gwasanaethau Cyfreithiol fod y grant o £71,895.00 wedi dod i law. Atgoffwyd y Panel na fyddai caniatâd yn cael ei roi i drosglwyddo unrhyw danwariant i'r flwyddyn ddilynol a bod rhaid i unrhyw waith a gwblheir mewn unrhyw flwyddyn beidio â bod yn fwy na £71,895.00.

## 6. ADRODDIAD BLYNYDDOL Y COMISIYNYDD HEDDLU A THROSEDDU.

Cafodd y Panel Adroddiad Blynyddol y Comisiynydd Heddlu a Throseddu ar gyfer 2016/17 i'w ystyried yn unol â darpariaethau Adrannau 12 a 28 o Ddeddf Diwygio'r Heddlu a Chyfrifoldeb Cymdeithasol 2011.

Rhoddwyd sylw i'r cwestiynau/materion canlynol wrth drafod yr adroddiad:-

- Codwyd ymholiad ynglŷn â chanran yr arian wrth gefn sydd wedi'i glustnodi; yn absenoldeb y Prif Swyddog Cyllid dywedodd y Comisiynydd Heddlu a Throseddu y byddai'n anfon y wybodaeth ymlaen at aelodau'r Panel.

- Cyfeiriwyd at addewid y Comisiynydd i ail-fuddsoddi yn yr isadeiledd teledu cylch cyfyng yn 2017/18. Gwnaed ymholiad ynghylch amserlen y prosiect hwn. Dywedodd y Comisiynydd Heddlu a Throseddu fod profion llinell weld wedi'u cynnal a bod timau'r prosiect ar hyn o bryd yn cynnal dadansoddiad o'r isadeiledd Rhwydwaith Ardal Eang, sydd yn ofynnol er mwyn trosglwyddo symiau mawr o ddata.

- Yn ogystal, rhoddodd y Comisiynydd wybod i'r Panel y byddai gwaith cychwynnol yn cael ei wneud yng Nghaerfyrddin a fyddai wedyn yn cael ei ymestyn i Lanelli a Rhydaman dros y 6 mis nesaf.

- Wrth ymateb i ymholiad a godwyd mewn perthynas â chael cynllun cydnerthedd yn ei le, dywedodd y Comisiynydd iddo ddatgan yn ystod ei addewid etholiadol na fyddai angen Dirprwy arno. Tra teimlai bod hyn yn gam cadarnhaol, roedd y llwyth gwaith ychwanegol yn cael ei gydnabod. Fodd bynnag, rhoddwyd sicrwydd i'r Panel fod gan y Swyddfa berthynas waith agos ynghyd â phrofiad helaeth.

- Yn dilyn ymholiad, rhoddodd y Comisiynydd y wybodaeth ddiweddaraf i'r Panel am sefyllfa ddiweddaraf y Bwrdd Cyfiawnder Troseddol. Rhoddodd y Comisiynydd wybod i'r Panel fod y Panel Sicrhau Ansawdd yn craffu ar Fwrdd Atebolrwydd yr Heddlu ac y byddai unrhyw ddeilliannau dysgu a nodwyd yn cael eu rhoi ar waith.

- Codwyd y pwynt fod penderfyniad wedi'i wneud yn y cyfarfod a gynhaliwyd ar 27 Ionawr 2017 (gweler Cofnod 9) y byddai'r Athro I. Roffe, yn dilyn gwahoddiad y Comisiynydd, yn dod yn Aelod o'r Bwrdd Ymchwil. Fodd bynnag, nid oedd y gwahoddiad wedi cael ei wireddu eto. Ymddiheurodd y Comisiynydd am yr amryfusedd a byddai'n sicrhau y byddai hyn yn cael ei gywiro cyn y cyfarfod nesaf.

- Mewn ymateb i ymholiad ynglŷn â lefel canran yr arian wrth gefn, dywedodd y Comisiynydd nad oedd lefel wedi'i gosod. Mae'r lefelau presennol yn adlewyrchu'r rheiny a osodwyd mewn Awdurdodau Unedol eraill yr oedd y Cydbwyllgor Archwilio yn craffu arnynt, a bod Swyddfa Archwilio Cymru yn rhan o'r Pwyllgor.

- Cododd y Panel y pwynt fod yna gryn anawsterau wedi bod gydag ymddygiad Teithwyr a gofynnodd i'r Comisiynydd ystyried y mater hwn ymhellach. Dywedodd y Comisiynydd y byddai angen i'r mater hwn gael ei ystyried ar y cyd â Llywodraeth Cymru ac Awdurdodau Lleol. Ymhellach, byddai'n hapus i gynorthwyo mewn unrhyw ymchwil petai'r Panel yn penderfynu ystyried y mater hwn fel rhan o Grŵp Gorchwyl a Gorffen.

- Codwyd ymholiad ynglŷn â'r newidiadau mewn trefniadau cymorth awyr ac a oedd unrhyw werthusiad parhaus yn digwydd. Esboniodd y Comisiynydd i'r Panel fod hwn yn fater cymhleth iawn a'i fod yntau'n eistedd ar y Bwrdd Gwasanaeth Awyr Strategol a oedd yn sicrhau bod llais gan y rhannau mwy gwledig o Gymru.

Mewn ymateb i ymholiad ychwanegol, dywedodd y Comisiynydd fod cyllid Cyfalaf wedi'i osod fel Bwrdd i'r Ysgrifennydd Gwladol a bod cyfraniad o £200k y flwyddyn yn cael ei wneud ar hyn o bryd, sydd yn lleihad sylweddol o'r £850k y flwyddyn.

- Mewn ymateb i ymholiad ynglŷn â'r defnydd o ddronau, dywedodd y Comisiynydd fod dronau yn perthyn i Wasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru wedi cael eu defnyddio mewn digwyddiadau megis y Gollyngiad Olew Cerosin yn Nant-y-caws, Caerfyrddin ac y byddai'n ystyried prynu dronau yn y dyfodol agos.

- Yn dilyn pryder a godwyd mewn perthynas â cham-drin domestig a'r effaith a gaiff hyn ar blant, gofynnwyd i'r Comisiynydd a oedd yn hyderus fod yna ddarpariaeth ar gyfer plant a oedd yn y sefyllfa hon? Rhoddodd y Comisiynydd wybod i'r Panel fod astudiaeth wedi'i chynnal gan Iechyd Cyhoeddus Cymru - Profiadau Niweidiol yn ystod Plentyndod a'i fod yn gobeithio derbyn cyllid o £6m er mwyn ategu canlyniadau'r astudiaeth.

- Mewn ymateb i sylw ar Gam-drin Rhywiol a pharatoi plant i bwrpas rhywiol, dywedodd y Comisiynydd fod 11 o Swyddogion Cyswllt Ysgolion yn gweithio fel rhan o gwricwlwm cenedlaethol i atal a diogelu plant rhag troseddau o'r fath ynghyd â gwaith parhaus gan yr Uned Seiberdroseddu.

**PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL dderbyn yr adroddiad.**

## 7. PENDERFYNIADAU'R COMISIYNYDD

Cafodd y Panel adroddiad, er gwybodaeth, a fanylai ar y penderfyniadau a wnaed gan y Comisiynydd Heddlu a Throseddu yn ystod y cyfnod rhwng 19 Ionawr 2017 a 21 Mawrth 2017.

**PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL dderbyn yr adroddiad.**

## 8. BWRDD ATEBOLRWYDD YR HEDDLU

Derbyniodd y Panel adroddiad i'w ystyried ar Fwrdd Atebolrwydd yr Heddlu, sef y fforwm cyhoeddus trwy'r hwn yr oedd y Comisiynydd Heddlu a Throseddu yn craffu ar waith y Prif Gwnstabl ac yn ei ddal i gyfrif.

Dywedodd y Comisiynydd y byddai'n annog cynrychiolaeth o'r Panel i fynd i'r cyfarfodydd fel arsylwyr, er mwyn i'r Aelodau allu bod yn dawel eu meddwl ei fod yn craffu mewn modd cadarn ar waith y Prif Gwnstabl a'r Heddlu trwy eu bod yn clywed o lygad y ffynnon. Ymhellach, dywedodd y Comisiynydd fod yna gyfarfodydd cyhoeddus eraill megis y Cydbwyllgor Archwilio a allai hefyd fod o ddiddordeb i aelodau'r Panel.

Nododd y Panel fod cyfarfodydd Bwrdd Atebolrwydd yr Heddlu yn cael eu cynnal bob chwarter mewn gwahanol leoliadau o amgylch ardal yr Heddlu gyda'r cyfarfod nesaf yn cael ei gynnal yn Arberth.

Awgrymwyd a chytunwyd y byddai'r Aelodau hynny o'r Panel sydd wedi'u lleoli yn yr un ardal â lleoliad cyfarfod y Bwrdd yn mynd iddo ac yn adrodd yn ôl wrth gyfarfod nesaf y Panel. Cytunwyd ymhellach y byddai Aelod o'r Panel yn bresennol yn y Cydbwyllgor Archwilio fel arsylwr.

Rhoddodd Rheolwr Dros Dro y Gwasanaethau Cyfreithiol wybod i'r Panel y byddai'n cysylltu â Swyddfa'r Comisiynydd ac yn anfon rhagor o fanylion at Aelodau'r Panel yn y man.

**PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL**

**8.1 fod yr adroddiad ar Fwrdd Atebolrwydd yr Heddlu yn cael ei dderbyn;**

**8.2 y byddai Aelodau'r Panel sydd wedi'u lleoli agosaf at leoliad y Cyfarfodydd yn mynd i gyfarfodydd Bwrdd Atebolrwydd yr Heddlu a'r Cydbwyllgor Archwilio fel arsylwyr;**

**8.3 y byddai Aelodau'r Panel sy'n arsylwi cyfarfodydd yn adrodd yn ffurfiol am y canfyddiadau wrth y Panel yn ei gyfarfod nesaf.**

## 9. GRŴP GORCHWYL A GORFFEN

Ystyriodd y Panel adroddiad a oedd yn ceisio cael y Panel i benderfynu p'un a ddylid ffurfio Grŵp Gorchwyl a Gorffen ai peidio i fynd ati graffu'n rhagweithiol ar fater penodol, nodi'r mater y dylid craffu arno a phenodi Aelodau o'r Panel i'r grŵp.

Yn dilyn trafodaeth, cytunwyd mewn egwyddor i sefydlu Grŵp Gorchwyl a Gorffen yn dilyn sesiwn hyfforddi a fyddai'n cael ei threfnu ym mis Medi 2017 ac y byddai'r grŵp yn cynnwys Mrs Helen Thomas (Aelod Annibynnol) ac un Cynghorydd o bob Awdurdod Unedol.

**PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL**

**9.1 Derbyn yr adroddiad;**

**9.2 y byddai Grŵp Gorchwyl a Gorffen yn cael ei sefydlu ac y byddai pwnc yn cael ei bennu, yn dilyn y sesiwn hyfforddi ym mis Medi;**

**9.3 y byddai'r Grŵp Gorchwyl a Gorffen yn cynnwys Mrs H. Thomas ac un Cynghorydd o bob Awdurdod Unedol.**

## 10. BLAENRAGLEN WAITH

Ystyriodd y Panel Flaenraglen Waith ddrafft oedd yn ystyried y gofynion statudol a osodwyd ar y Comisiynydd a'r Panel a'r amserlen arfaethedig ar gyfer gweithredu Cynllun Heddlu a Throseddu'r Comisiynydd. Byddai'r Rhaglen yn destun adolygiad.

**PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL fod y Flaenraglen Waith yn cael ei chymeradwyo.**

## 11. CWESTIYNAU Â RHYBUDD AR GYFER Y COMISIYNYDD

Ystyriodd y Panel adroddiad ar Gwestiynau â Rhybudd ar gyfer y Comisiynydd a fyddai'n hwyluso mwy o gyfraniad gan y cyhoedd at waith y Panel a chodi proffil cyfraniadau aelodau unigol at drafodaethau'r Panel.

Ystyriodd y Panel y cynigion i ddiwygio'r weithdrefn fel y'i cyflwynir yn yr adroddiad.

Dywedodd Aelodau'r Panel y byddai'r cynigion yn caniatáu i gwestiynau'r cyhoedd gael eu derbyn a'u cofnodi'n ffurfiol gan roi cyfle i'r Comisiynydd a'i dîm baratoi ymateb gwybodus a manwl.

**PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL**

**11.1 Derbyn yr adroddiad ar Gwestiynau â Rhybudd ar gyfer y Comisiynydd;**

**11.2 Caniatáu i'r cyhoedd gyflwyno cwestiynau i'w rhoi i'r Comisiynydd yng nghyfarfod chwarterol nesaf y Panel. Mae'r gofyniad am 10 diwrnod gwaith o rybudd ysgrifenedig i gael ei gadw.**

**11.3 Caniatáu i aelodau'r Panel gyflwyno cwestiynau ysgrifenedig â rhybudd i'r Comisiynydd yng nghyfarfod chwarterol nesaf y Panel a bod y gofyniad o 10 diwrnod gwaith o rybudd ysgrifenedig yn cael ei fabwysiadu**

**11.4 Bod y ddwy eitem hyn yn cael eu cadw fel eitemau sefydlog ar agendâu'r holl gyfarfodydd chwarterol hyd yn oed os nad oes yna gwestiynau i'w rhoi.**

**11.5 Mai'r Cadeirydd sydd i benderfynu ar gyfanswm nifer y cwestiynau i'w hystyried ar unrhyw agenda benodol er mwyn sicrhau bod y materion sy'n weddill ar gyfer y Panel yn cael y sylw priodol;**

**11.6 Mewn perthynas â chwestiynau gan y cyhoedd, nid oes angen i'r sawl sy'n rhoi'r cwestiwn fod yn bresennol yn y cyfarfod, o ystyried y pellterau teithio y byddai hyn yn golygu;**

**11.7 Bod y dull hwn yn cael ei fabwysiadu am gyfnod prawf i ddechrau, hyd at Gyfarfod Cyffredinol Blynyddol y Panel yn 2018.**

## 12. Y 6ED GYNHADLEDD FLYNYDDOL AR GYFER PANELI HEDDLU A THROSEDDU

Ystyriodd y Panel adroddiad i'w ystyried a oedd yn cynnwys rhaglen ar y 6ed Gynhadledd Flynyddol ar gyfer Paneli Heddlu a Throseddu a gynhelir gan Frontline Consulting yng Nghanolfan Gynadledda Scarman, Prifysgol Warwick, Coventry ar 6 Tachwedd 2017.

Dywedwyd y byddai hyn yn gyfle gwych i rwydweithio. Cynigiwyd felly fod yr Is-gadeirydd yn mynd i'r Gynhadledd ynghyd ag unrhyw rai o aelodau eraill y Panel a fyddai'n hoffi dod.  Cytunwyd ar hyn.

**PENDERFYNWYD bod yr Is-gadeirydd yn mynd i'r 6ed Gynhadledd Flynyddol ar Gyfer Paneli Heddlu a Throseddu ar 6 Tachwedd 2017 ynghyd ag unrhyw Aelod arall a fyddai'n hoffi dod.**

______________________ ____________________

**Y CADEIRYDD** **Y DYDDIAD**